Rhestr wirio: Mesurau Rheoli Iechyd Cyhoeddus

Dyddiad cynnal: **Llofnod:**

Gellir defnyddio'r rhestr wirio hon i helpu arweinwyr ysgolion i ystyried pa fesurau rheoli sydd dal yn gymesur i fod yn gymwys yn eich ysgol neu leoliad.

Bydd p'un a yw'n gymesur i gymhwyso mesur rheoli yn cael ei bennu drwy ystyried:

- **pob gweithgaredd a wneir yn yr ysgol neu ei leoliad;**
- **a yw gweithgareddau'n cael eu cynnal y tu mewn neu thu allan;**
- **yr adeg o'r flwyddyn; a**
- **nifer a math y dysgwyr a'r staff rydych chi'n gyfrifol amdanynt.**

	Os yw hynny'n wir, rhowch esboniad	Os nad yw hynny'n wir, rhowch unrhyw gamau yr ydych yn bwriadu eu cymryd neu esboniwch pam y gwnaethoch y penderfyniad hwn	Dyddiad
A ydych wedi asesu digonolrwydd yr awyru yn eich ysgol neu leoliad? **DO/NADDO** Beth ydych chi wedi'i wneud i sicrhau bod digon o awyru? • Pa ddulliau awyru sydd gennych y tu mewn i'ch lleoliad (dylech gynnwys yr holl ystafelloedd dosbarth, ystafelloedd staff, toiledau, ystafelloedd storio, pob			

ystafell y mae gan dysgwyr/staff fynediad iddynt). • A oes unrhyw fannau sy'n orlawn yn aml? • A yw eich proses o fonitro CO2 wedi bod yn ddefnyddiol wrth fonitro'r awyru? • Pa newidiadau ydych chi wedi gallu eu gwneud i wella'r awyru? • Ystyriwch a ellir ymgymryd ag unrhyw weithgareddau y tu allan.			
Ydych chi/eich contractwyr glanhau wedi adolygu digonolrwydd eich trefniadau glanhau? **DO/NADDO** • Ystyriwch eich amserlen lanhau o ran defnydd a thraffig. • A yw pwyntiau cyffwrdd yn cael eu glanhau/diheintio'n aml? • Ydy'r glanhawyr yn defnyddio'r amser cyswllt cywir a'r gyfradd gwanedu cywir ar gyfer eu hylifau glanhau?			
A ydych wedi gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer golchi dwylo a hylendid personol? **Ydyn/Nac ydyn** • A oes cyfleusterau golchi dwylo digonol a hygyrch ar gyfer nifer y dysgwyr a'r staff? • A oes cyflenwad digonol o sebon, dŵr poeth ac oer a chyfleusterau sychu hylan (tyweli papur tafladwy, sychwyr dwylo mecanyddol)?			

• A roddir diheintyddion dwylo i ddysgwyr a staff neu a oes ganddynt fynediad at ddiheintyddion dwylo? • Ydych chi'n sicrhau bod hylif diheintio dwylo ar gael i ymwelwyr wrth fynd i mewn i'ch safle neu ar draws eich safle (os yn berthnasol)? • A yw dysgwyr a staff yn gwybod sut a phryd i olchi eu dwylo'n iawn? • A yw dysgwyr a staff yn deall ac yn dangos ymddygiad da o ran hylendid anadlol h.y. peswch neu disian i hances bapur neu benelin, rhoi'r hances bapur yn y bin, wedyn golchi dwylo?			
A ydych wedi ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant penodol neu wedi darparu cyfarwyddyd/gwybodaeth i'ch staff mewn perthynas â'r mesurau rheoli iechyd cyhoeddus yr ydych wedi'u mabwysiadu h.y. awyru priodol, arferion golchi dwylo da ac ati? **DO/NADDO**			
Os oes angen, ydych chi wedi ystyried pa gamau i'w cymryd i wella ymbellhau corfforol? **DO/NADDO** • A yw eich lleoliad yn gallu cefnogi unrhyw lefel o ymbellhau corfforol h.y. 1m neu 2m – (mae 2m yn			

cynnig y manteision mwyaf posibl fel mesur rheoli iechyd cyhoeddus) yn cynnwys mewn gweithgareddau/ystafelloedd staff yn ogystal â gweithgareddau addysgol? • Lle nad yw hyn yn bosibl, a ydych wedi ystyried gweithredu unrhyw fesurau rheoli eraill?			
Ydych chi wedi trafod a chytuno â'ch awdurdod lleol a thîm arwain yr ysgol ar ba fesurau wrth gefn sydd i'w rhoi ar waith ar sail risgiau neu amgylchiadau lleol penodol? • Pa adnoddau asesu risgiau ydych chi wedi'u defnyddio? • Pa wybodaeth, fel data neu wybodaeth am absenoldeb o ysgolion gan yr awdurdod lleol, fyddwch chi'n eu defnyddio i fesur risgiau ac i wneud penderfyniadau ynghylch mesurau lliniaru? • Pryd ac o dan ba amgylchiadau fyddwch chi'n cyflwyno 'dysgu cyfunol'?			
A ydych yn cefnogi staff pan fyddant yn cael apwyntiad brechu? **Ydyn/Nac ydyn** • Ydych chi'n caniatáu amser i ffwrdd i staff a dysgwyr gael eu brechiad?			

• A ydych wedi cyfeirio eich staff at wybodaeth Llywodraeth Cymru am frechu?			
A ydych wedi trafod a gweithredu **addasiadau rhesymol** ar gyfer gweithwyr anabl a gweithwyr sydd â chyflyrau iechyd? **Ydyn/Nac ydyn** • A ydych wedi nodi unrhyw ddysgwyr neu aelodau o staff â risg glinigol uwch? • A ydych wedi ceisio mewnbwn gan glinigydd neu weithiwr iechyd proffesiynol y dysgwr (drwy'r rhiant/gofalwr) i sicrhau bod Cynllun Gofal Iechyd y dysgwr wedi'i ddiweddaru? • A ydych wedi cael trafodaeth ac wedi cwblhau'r **adnodd asesu**' **risg** ar gyfer y gweithlu gyda'r holl weithwyr perthnasol? • A wnaethoch nodi a gweithredu unrhyw addasiadau rhesymol o ganlyniad?			
A oes unrhyw fesurau rheoli eraill y mae eich ysgol neu leoliad wedi'u rhoi ar waith i leihau'r posibilrwydd o drosglwyddo ymhellach? **Oes/Nac oes** • Efallai eich bod wedi newid rhai o'ch arferion a'ch gweithrediadau			

neu wedi cyflwyno rheolaethau eraill sy'n fwy addas ar gyfer eich lleoliad. • Er enghraifft, efallai eich bod yn cadw cofnodion er mwyn sicrhau eich bod yn ymwybodol o bwy sydd ar y safle at ddibenion Diogelwch Tân. A ydych wedi ystyried a a allech ddefnyddio'r un cofnodion fel ffordd o hysbysu'r rhai sy'n bresennol os oes gan rywun symptomau o glefyd trosglwyddadwy (gan gynnwys ffliw, coronafeirws neu norofeirws) neu os bydd rhywun wedi profi'n bositif am y coronafeirws?			